

Athrawon!... A oes gennych ddisgyblion
disglair sy'n serennu mewn
celf a chreffft?



Dosbarthiadau Meistri Celf i Blant Mwy Abl a Thalentog

Mae **Criw Celf** yn cynnig rhaglen o hyfforddiant arbenigol i blant sy'n fwy abl a thalentog ym maes celf weledol. Drwy ein rhaglen o chew diwrnod o ddosbarthiadau meistri arbennig dros gyfnod o chew mis, gydag artistiaid proffesiynol, mae aelodau **Criw Celf** yn cael ...

- Mynediad i addysg celf ychwanegol, dwys o ansawdd uchel
- Meithrin a datblygu sgiliau a dealltwriaeth o gelf weledol a chreffft
- Dysgu am yrfaedd ym maes celf
- Cydweithio ag artistiaid i ddatblygu eu potential a'u gallu
 - Arddangos eu gwaith celf mewn oriel



Enwebu eich disgyblion...

Fel athro neu athrawes gallwch enwebu **hyd at 10** o ddisgyblion **Blwyddyn 5 i 9** i ymaelodi â'r rhaglen hyfforddiant cyffroes hwn. Gyrrwch enghraifft o'u gwaith celf atom er ystyriaeth erbyn **23 Tachwedd 2018**, darlennwch am yr hyn sydd angen ei gyflwyno ar y dudalen nesaf...

Cynllun wedi ei gefnogi gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru.



Cyflwyno gwaith celf...

Postiwch y canlynol i'r cyfeiriad isod...

- Darn o waith celf 2D, dim mwy na maint A2, wedi ei greu gan ddefnyddio unrhyw gyfrwng.
- Dylai'r darn o waith adlewyrchu'r gorau o dy sgiliau creadigol
- Paragraff byr yn egluro pam yr hoffent ymaelodi â Chriw Celf (dim mwy na 50 gair).

Gwnewch yn siŵr bod enw ac oed y plentyn, enw'r ysgol a chyfeiriad cartref a rhif ffôn cartref y plentyn ac ebost rhiant ar gefn y gwaith celf. Defnyddiwch y daflen label ar dudalen 3 o'r bamffled hon a'i atodi i'r gwaith. Cofiwch mai gallu naturiol y plentyn yr ydym angen ei weld wrth asesu'r gwaith celf. Mae'n hanfodol bwysig nad yw'r plentyn yn derbyn cymorth oedolyn nag artist i greu eu gwaith.

Bydd panel o artistiaid yn dethol y plant llwyddiannus ac fe fyddwn yn eu gwahodd i fynychu rhaglen o ddosbarthiadau meistri fydd yn cychwyn ym mis Ionawr 2019; cychwyn da i'r flwyddyn newydd!

**Mae modd i blant a'u rhieni hunan-enwebu yn ogystal ond bydd gofyn i'w hathro/awes lofnodi bonyn pwrpasol i warantu fod y plentyn wedi eu hadnabod fel disgybl MATH ym maes celf. Bydd manylion proses hunan-enwebu yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan yn fuan!*

Cyfeiriad...

Criw Celf Gwynedd a Môn, Archifdy Caernarfon,
Cyngor Gwynedd, Caernarfon,
Gwynedd LL55 1SH

Elan Rhys, Cydlynnydd Criw Celf, Portffolio a Codi'r Bar Gwynedd a Môn :
criwcelfgwynedd@yahoo.co.uk

Rhian George, Criw Celf Gwynedd : 01286 679721
rhianelingeorge@gwynedd.llyw.cymru

Lia Griffith, Criw Celf Môn : 01248 724444
liagriffith@ynysmon.gov.uk

PWYSIG

Mae bwrsari ar gael i gefnogi plant sy'n derbyn cinio am ddim yn yr ysgol, cysylltwch am y manylion os gwelwch yn dda.

**Ffi ymaelodi i rai
llwyddiannus £38**



www.criwcelf.co.uk

Label!

Atodwch y daflen label hon i'r gwaith celf yr ydych yn gyflwyno.

Sicrhewch bod y wybodaeth yn cael ei ysgrifennu'n glir, mewn llythrennau bras, diolch.

Enw : _____ Bl. Ysgol : _____ Oedran : _____

Ysgol : _____

Cyfeiriad Cartref : _____

Rhif Ffôn Cartref : _____

Rhif ffôn symudol rhiant : _____

Rhif ffôn symudol plentyn (os oes ganddynt) : _____

Cyfeiriad ebost rhiant : _____

A yw'r disgybl wedi ei adnabod fel disgybl MATH ym maes celf? : Do : Naddo :

Enw a llofnod yr athro : _____

Paragraff Byr yn egluro pam yr hoffent ymaelodi â Chriw Celf
